

CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd yn yr Hen Lys a thrwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 20 Chwefror 2023 am
7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Anne Roberts, Heather Williams, Ian Lewney, Stephen
Beach, Christine Ellis, Rosie Hughes-Anderson, Rachel Ryland, Lisa
Thomas, Gavin Harris, Peter Daniels a Mike van der Eijk.
Cynghorydd Sir, Emrys Wynne drwy Zoom

YN BRESENNOL: Iolo Williams – Clerc y Dref
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys
Marian Rees – Cyfieithydd

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cynghorydd Menna Jones, y Maer y cynghorwyr a'r sylwedyddion. Rhoddodd groeso hefyd i fentrau busnes newydd yn Rhuthun gan fod dau gaffi wedi agor yn ddiweddar. Dywedodd hefyd fod gwobr wedi'i dyfarnu i Farchnad Crefftwyr Rhuthun. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Oliver Bradley Hughes, Jabez Oakes a Dafydd Hughes . Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorwyr Sir, Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

2. DATGAN BUDDIANNAU

- Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

3. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys Adroddiad y Maer.

4. ADRODDIADAU'R AELODAU

Trafododd yr Aelodau Adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda. Diolchodd y Maer i'r Cynghorwyr am eu hadroddiadau.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys adroddiadau'r Aelodau.

5. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Nodwyd adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun fel y'i dosbarthwyd.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.

12. Mewn newid i drefn yr agenda, rhoddodd y Cwnstabl Richard Llewellyn a'r Rhingyll Catherine Hampson y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr. Nid oes patrymau na thueddiadau troseddu clir yn Rhuthun ar hyn o bryd. Mae problem o ran gyrru gwyllt ac roedd camau ar waith i ymdrin â'r broblem. Yn yr ardal ehangach,

cofnodwyd achosion o ddwyn beiciau modur pedwar olwyn o leoliadau gwledig.

6. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 yn gywir.*

MATERION YN CODI

Cyhoeddodd y Maer fod y praesept wedi'i bennu yn 2.9% yn dilyn cyfarfod blaenorol y Cyngor. Er ei fod yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor droi at y Gronfa wrth Gefn, mae'n gobeithio bod hyn yn dangos i bobl Rhuthun bod y Cyngor yn dangos cydymdeimlad ar yr adeg hon o argyfwng costau byw.

8. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023.*

9. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023.*

10. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023.*

11. Y GRONFA FFYNIANT BRO – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Trafodwyd y cynnig gan David Jones AS a chynigiodd yr aelodau y Cynghorydd Gavin Harris i fod yn gynrychiolydd y Cyngor Tref, gyda chefnogaeth y Clerc. Gofynnodd y Cynghorydd Harries hefyd am i gynghorydd arall ymuno ag ef ar bwyllogor o Felodrom, a gwirfoddolodd y Cynghorydd Anne Robert. Gohiriwyd y penderfyniad tan y cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu i eraill fynegi eu ddi-ddordeb.

- 13. Cais gan Gwmni Buddiannau Cymunedol Llanfwrog i Gynghorydd Tref ymuno â'r ymddiriedolwyr.** Roedd y Cynghorwyr yn pryderu am wrthdaro buddiannau posibl ond bu'r Clerc yn siarad â chynrychiolwyr o'r elusen er mwyn ymchwilio i'r opsiynau pe bai cynghorydd yn dymuno cymryd rhan. Gofynnwyd i gynghorwyr a oedd â diddordeb gysylltu â'r Clerc neu roi'r manylion i drigolion eraill Rhuthun a allai fod â diddordeb.

14. DATGANIAD ARIANNOL

Cafodd yr Aelodau y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: *Dywedwyd mai amcangyfrifon a oedd ar goll o'r ffigurau a ddarparwyd gan y cyfrifydd oedd rhai adrannau, a byddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer datganiadau yn y dyfodol. Penderfynwyd derbyn y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31*

Ionawr 2023.

15. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: cymeradwyo taliad yr eitemau a ganlyn:

Gan	Is-gyfanswm	T.A.W.	Cyfanswm	Nodiadau
TOTAL Energies	£62.93	£3.15	£66.08	Cyflenwad nwy
Marian Rees	£405.00	£81.00	£486.00	Cyfieithu a Chymorth
Marian Rees	£75.00	£15.00	£90.00	Cyfieithu 23 Ionawr
Leonardo's	£162.50		£162.50	Gwasanaethau Arlwyo
Canda Copying	£64.00	£12.80	£76.80	Defnyddio'r copiwr
	£769.43	£111.95	£881.38	

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 20 Mawrth 2023 am 7pm.